Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Ionawr 2024

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda, hapus a llwyddiannus i chwi oll ar ddechrau blwyddyn newydd. Teimlaf ei fod yn gyfle gwych i atgoffa'n gilydd o rai o'n blaenoriaethau ac o ddigwyddiadau'r tymor.

Bydd nifer o nosweithiau rhieni, arholiadau a digwyddiadau pwysig yn ystod tymor y Gwanwyn – gweler y rhestr isod:

| Blwyddyn | Digwyddiad | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|---|
| 11 | Noson Agored 'Y Chweched' er mwyn cyflwyno partneriaeth y 6ed gydag Ysgol Gwyr | 11.01.24 | 18:00 – 22:00 |
| 12+13 | Ffug Arholiadau'r 6ed | 22-26.01.24 | Gweler amserlen |
| 10 | Arholiadau Llafar Cymraeg TGAU | 22-26.01.24 | Gweler amserlen |
| 9 | Noson Adborth Cynnydd | 29.01.24 | 16:30 – 19:00 |
| 11 | Arholiadau ymarferol Gwyddoniaeth TGAU | 29.01 – 02.02.24 | Bore |
| 10 | Ffug Arholiadau Bl. 10 | 02-08.02.24 | Gweler amserlen |
| Pawb | HMS i staff (dim ysgol i ddisgyblion) | 09.02.24 | Trwy'r dydd |
| Pawb | Hanner Tymor | 12 – 16.02.24 | |
| Pawb | Eisteddfod Ysgol a Seremoni Gadeirio | 01.03.24 | Trwy'r dydd |
| 9 | Noson 'gyflwyno opsiynau CA4' | 29.02.24 | 18:00 - 20:00 |
| 11 a 13eg | Lluniau Blwyddyn a grwpiau ffrindiau | 11.03.24 | Bore |
| 8 | Noson Adborth Cynnydd | 11.03.24 | 16:30 – 19:00 |
| 9 | Profion dosbarth | 18-22.03.24 | Gweler amserlen |
| Pawb | Gwyliau'r Pasg | 25.03 - 05.04.24 | |
| 7 | Noson Rieni Cynnydd | 15.04.24 | 16:30 - 19:00 |
| 10+11 | Arholiadau TGAU | 09.05 – 25.06.24 | Gweler amserlen |
| 12+13 | Arholiadau UG a Safon Uwch | 13.05 – 26.06.24 | Gweler amserlen |

Mae'r bartneriaeth ysgol a'r cartref yn allweddol i lwyddiant eich plant. Hoffwn ddiolch i chi o flaen llaw am eich cefnogaeth barhaus ar y materion isod:

- **Presenoldeb**: heb os, fe wyddom y bod presenoldeb uchel yn allweddol i lwyddiant unrhyw ddisgybl. Yn sgìl hyn, rhaid llongyfarch canran uchel o'n disgyblion sydd â phresenoldeb ardderchog!

  Gwyddom hefyd, y bod presenoldeb rhai disgyblion yn bryder mawr, e.e. mae presenoldeb o 80% yn golygu colli diwrnod yr wythnos, ac yn cyfateb i golli uned gyfan o waith yn CA4 neu 5! Yn naturiol fe fydd hyn yn cael effaith andwyol ar addysg disgybl. Bydd pob disgybl sydd yn cyrraedd yn uwch na'r targed ysgol o 95% yn rhoi'r cyfle gorau i'w hun i lwyddo. Gaf i eich annog fel rhieni a gwarcheidwaid i sicrhau bod eich plentyn yn dod i'r ysgol bob dydd!

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies
Microsoft Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

- **Cymreictod**: sylfaen llwyddiant disgyblion ym Mryn Tawe yw'r defnydd o'r iaith yn ffurfiol yn y gwersi, ond yr un mor bwysig, yw'r defnydd y tu allan o'r gwersi. Bydd eich cefnogaeth a'ch anogaeth chi iddynt ddefnyddio'r iaith drwy'r amser yn yr ysgol yn ein cefnogi ni i sicrhau ethos Cymreig yn yr ysgol ac yn rhoi'r cyfle gorau i'ch plentyn i ddatblygu'u medrau llythrennedd ac felly eu gallu i ddysgu.

- **Gwisg ysgol:** mae cydymffurfio gyda disgwyliadau gwisg yr ysgol yn arddangos lefel uchel o barch ac ymroddiad disgyblion at eu haddysg. Mae'n cyfrannu at ymdeimlad o undod a pherthyn â'r ysgol. Gaf i ofyn i bob rhiant i sicrhau bod ei blentyn nhw yn y wisg iawn, bob dydd, er mwyn hyrwyddo ymdeimlad o berthyn i Fryn Tawe. **Bydd darparu nodyn i'ch plentyn i esbonio pam nad oes ganddyn nhw wisg ar unrhyw ddiwrnod yn ddefnyddiol iawn i osgoi galwadau diangen adref ac yn osgoi unrhyw wrthdaro di-angen.**

  Cofiwch hefyd, rydym yn barod iawn i gefnogi teuluoedd os oes unrhyw broblem cael gafael mewn gwisg ysgol – cysylltwch gyda Mrs Eirian Leonard (LeonardE18@hwbcymru.net) i drafod ymhellach. '**Bergoni'** yw unig ddarparwr swyddogol y wisg ysgol – cliciwch yma am wybodaeth bellach. Rwy'n ymwybodol y bod darparwyr arall yn gwerthu gwisg Bryn Tawe ac yn cynnwys 'hwdi'. Nid yw 'hwdi' bellach yn rhan o wisg swyddogol yr ysgol - mae manylion llawn y wisg ar gael yma.

- **Defnydd o ffonau symudol:** heb os, mae'r newid ym mholisi ffonau symudol yr ysgol, ble nad oes caniatâd gan unrhyw ddisgybl ym mlynyddoedd 7-11 i'w defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol, wedi profi i fod yn gam positif iawn. Mae hyn yn ein caniatâi i ffocysu ar ddysgu yn y dosbarth a hefyd ar les disgyblion fel nad ydynt yn or-ddibynnol ar eu ffôn yn ddyddiol. Fel pob polisi, mae angen i in ail-ymweld a chodi proffil y ffocws yn gyson. **Gweler y polisi yma, a gai ofyn i chi atgoffa eich plentyn am y polisi cyn iddynt ddychwelyd fel y gallwn barhau i ffocysu ar ddysgu a lles pob disgybl.**

- **Gwaith cartref:** gwerthfawrogwn bob cefnogaeth y gallwch chi ei rhoi i'ch plentyn er mwyn gallu cwblhau gwaith cartref yn brydlon ac i'r safon orau posib. Bydd ymarfer y sgiliau a ddysgir yn y dosbarth yn help mawr i bob disgybl i ddatblygu ymhellach ym mhob pwnc. Mae cefnogaeth ar gael i chi fel rhieni gan athrawon eich plentyn - plîs cysylltwch os oes pryder gennych; ac fe allwn eich cyfeirio hefyd at nifer o apiau a gwefannau defnyddiol.

Edrychwn ymlaen at **groesawi bob disgybl yn ôl ar ddydd Llun yr 8fed o Ionawr** ar gyfer tymor prysur arall o ddysgu! Os hoffech drafod unrhyw beth uchod, neu am gysylltu ag awgrymiadau i wella'r ddarpariaeth yn yr ysgol, cysylltwch â fi am sgwrs.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales